# CYNGOR CYMUNED BUAN

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd nos Iau, 10 Mawrth, 2022
*Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy*

Presennol:

Cynghorwyr:

Hughie Williams – Cadeirydd
Wyn Davies
Catherine Hughes
Rhys Jones
Gareth Roberts

Nerys Williams - Clerc

## 1. Ymddiheuriadau –

Croesawyd bawb i'r cyfarfod gan y Cynghorydd Hughie Williams. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Tesni W. Jones, Einir Lewis, Phil Roberts a Dafydd Ll. Williams.

## 2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd cofnodion 09 Chwefror, 2022 yn gywir gan y Cynghorydd Hughie Williams ac eilwyd gan y Cynghorydd Wyn Davies.

*Materion yn codi*:- Adroddodd y Cynghorydd Hughie Williams ei fod wedi cael gair gyda Mr. Arnott Jones ynglyn â thorri'r gwellt am eleni a bod Mr. Jones wedi cytuno i wneud am yr un pris â'r llynedd.

## 3. Ymatebion i ohebiaeth

*Amgueddfa Forwrol Llŷn* – Derbyniwyd llythyr gan Is-bwyllgor Ariannu yr Amgueddfa yn gofyn am gyfraniad ariannol tuag at redeg yr amgueddfa.

Penderfynwyd:- Cyfrannu £150.00

Ambiwlans Awyr Cymru i Blant – Derbyniwyd llythyr gan Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn gofyn am gyfraniad ariannol, ond oherwydd bod y Cyngor wedi cyfrannu ym mis Tachwedd, 2021 penderfynwyd peidio cyfrannu am y tro.

Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd – Penderfynwyd gohirio talu'r cyfraniad ar y funud a thrafod y cais yn ystod cyfarfod mis Ebrill.

Un Llais Cymru – Penderfynwyd talu'r tâl aelodaeth o £82.00.

## 4. Materion Ariannol

Derbynwid cysoniad y banc am y cyfnod 4 Chwefror, 2022 i 3 Mawrth, 2022 yn gywir yn y swm o £4848.87
(**Siec rhif 200657 – Tollau eu Mawrhydi heb fynd drwy'r banc).**

Adroddwyd bod Lightsource wedi talu £4465.48 i'r banc ar 11.02.2022.

Y sieciau isod wedi cael eu harwyddo gan ddau Gynghorydd ar ddiwedd y cyfarfod.

| | | |
|---|---|---|
| Bacstal (chwarter i 30.09.2021) | £132.00 | Siec Rhif 200658 |
| Cyllid a Thollau (Mis 12) | £28.00 | Siec Rhif 200659 |
| Nerys Williams | £111.79 | Siec Rhif 200660 |
| Cath Beckett, Tu Hwnt i'r Afon | £20.00 | Siec Rhif 200661 |
| Amgueddfa Forwrol Llŷn | £150.00 | Siec Rhif 200662 |
| Un Llais Cymru | £82.00 | Siec Rhif 200663 |

## 5. Materion Cynllunio

Dim i'w drafod.

## 6. Datgan Diddordeb

Dim.

## 7. Materion er Gwybodaeth

Mae pob dogfen yn cael ei yrru yn electronig i'r Cynghorwyr drwy e bost.

## 8. Unrhyw fater arall

Adroddodd y Cynghorydd Catherine Hughes ei bod wedi cael cŵyn gan aelod o'r cyhoedd ynglyn â'r blerwch sydd o gwmpas Ger Llwyn.

Ar ôl trafod y mater , penderfynwyd nad oes dim all y cyngor Cymuned wneud yn yr achos yma oherwydd does dim byd i'w weld o'r ffordd fawr y tu allan i'r safle.

### *Materion Priffyrdd*

Adroddodd y Cynghorydd Gareth Roberts bod diffyg barbio wedi bod ar Lôn Llŷn, Boduan a bod angen cysylltu â'r Adran Briffyrdd i gael gwybod pa bryd fyddai hyn yn digwydd.

Pont Sant Glorian – Trafodwyd y sefyllfa ynglŷn â bod y Bont wedi ei chau.  Mae angen holi beth yw'r cynlluniau ynglŷn â'r gwaith sydd i'w gwneud arni ac os oes unrhyw syniad o faint o hir y bydd ar gau.

Pont Bodfel – Trafodwyd hefyd y sefyllfa ynglŷn â Phont Bodfel a bod angen gael gwybod os oes dyddiad wedi cael ei benodi ar gyfer dechrau'r gwaith ar y bont newydd.

Mae lôn Cefn Mine, Rhydyclafdy yn cael ei defnyddio lawar mwy y dyddiau hyn ac o ganlyniad mae 2 neu 3 twll peryg yn y mannau pasio  a bod angen eu trwsio.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gydag Adran y Priffyrdd ynglŷn â'r materion uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 08.05 y.h.

## 9. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf

Nos Iau, 14 Ebrill, 2022 yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 p.m.